CBAC WJEC

# TAG Uwch

1386/01

## CYMRAEG AIL IAITH
### CA6
### DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

A.M. DYDD MAWRTH, 14 Mehefin 2011

*A.M. TUESDAY, 14 June 2011*

1¾ awr

*1¾ hours*

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Dylech dreulio ¾ awr ar Adran A ac 1 awr ar Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*8 page answer book.*

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*

*You should spend ¾ hour on Section A amd 1 hour on Section B.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of poetry and dictionaries are **not** permitted.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** (i) Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y ffurfiau berfol canlynol. Dechreuwch bob brawddeg gyda'r ffurfiau canlynol: [18]

*(a)* Pryna i
*(b)* Bydda i'n
*(c)* Roeddwn i wedi meddwl
*(ch)* Dylwn i
*(d)* Cynhaliwyd
*(dd)* Darllenais i

(ii) Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y cymalau canlynol. Dechreuwch bob brawddeg gyda'r ffurfiau hyn: [12]

*(a)* Pe baen nhw'n gwybod
*(b)* Cyn iddo gael swydd newydd
*(c)* Rydw i'n credu mai
*(ch)* Ydych chi'n adnabod y ferch sy wedi

**2.** Cyfieithwch y brawddegau canlynol: [15]

(i) He decided to walk home on his own. [3]
(ii) The old man has moved to a new house. [3]
(iii) She sold her car two years ago. [3]
(iv) He does not work now in a leisure centre. [3]
(v) I'll write to you before long. [3]

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**3.** Darllenwch y gerdd hon yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

**Noson loerig gyda Taid**

Cartwnau sy' gen i eisiau,
chwaraeon, gemau, ffilmiau.
Pam arall gosod bowlen
i dderbyn teledu lloeren?
Y fath ddewis! Ond be' 'di'r iws?
Mae Taid yn lloerig am 'Niws'.

Mae'n galw Sky yn 'T.V'.,
galw'i soffa'n 'sytî'
a phan fydd angen y rimôt,
heb drafferthu gofyn fôt,
bydd yn estyn y teclyn o'i boced-
- 'Be' sy' ar y "Niws" yma tybed?'

Ar ôl y bwletin mawr
bob tro mae hi'n taro'r awr,
bydd eto un neu ddau
o benawdau, cyn i'w lygaid gau,
gan fy ngadael innau fel lemon
yn clywed yr un un straeon
yn gymysg â'i chwyrnu cyson
wrth deithio o blaned i blaned
- gyda'i rimôt yn saff yn ei boced.

Taid, wrth gwrs, sydd piau
y soffa, y lloeren, y gwifrau,
y digi-bocs, y soced
(a'r rimôt yn seler ei boced)
ond tra bod ef ar ei daith
ym mhellter y gofod maith,
pwy all weld unrhyw fai
arnaf innau am drip bach ar Sky?

Ond mae fel tae'n medru clywed
fy meddwl yn mynd am ei boced,
bydd yn neidio – a does dim iws
- 'Beidio bod hi'n amser y Niws?'

Tro nesa' af i heibio, dwi am holi:
'Taid, be' am gêm o Monopoli?'

Myrddin ap Dafydd

taid = tad cu
medru = gallu

**Geirfa**

lloerig – *mad;*
lloeren – *dish;*
iws – *use;*
trafferthu – *to bother;*
estyn – *to reach;*
teclyn – *gadget;*
tybed – *I wonder;*
penawdau – *headlines;*
fy ngadael – *leaving me;*
chwyrnu – *snoring;*
piau – *to owe;*
gwifrau – *wires;*
gofod maith – *universe;*
unrhyw fai – *any blame;*
tae – *as if;*
beidio bod hi – *isn't it.*



**Trosodd.**

*(a)* Dadansoddwch gynnwys y gerdd *Noson Loerig gyda Taid* gan fanylu ar y berthynas rhwng y bachgen a'i Daid. [20]

*(b)* Dadansoddwch arddull y gerdd *Noson Loerig gyda Taid* ac esboniwch resymau'r bardd am ddefnyddio'r technegau hyn. [20]

*(c)* Prif thema'r gerdd hon yw perthynas a chariad teuluol. Manylwch ar y thema **cariad teuluol** trwy gyfeirio at y gerdd ac at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema. [35]